

Trin anymataliaeth ysgarthion â sffincter artiffisial a osodir drwy doriad yn yr abdomen

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio gosod sffincter artiffisial drwy doriad yn yr abdomen yn y GIG i drin pobl ag anymataliaeth ysgarthion. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio baeddu na'r driniaeth yn fanwl – dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chynghor i chi am hynny. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 6.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth dda sy'n dweud pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Yn ogystal, dim ond ar nifer fach o gleifion y mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn seiliedig. Os yw meddyg am ddefnyddio sffincter artiffisial wedi'i osod drwy doriad yn yr abdomen i drin anymataliaeth ysgarthion, dylai sicrhau ei fod yn cymryd camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd ynglŷn â pha mor dda y mae'n gweithio, ynghyd â'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â risgiau posibl y driniaeth wella. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i'r driniaeth. Dylai'r claf gael y daflen hon ac unrhyw wybodaeth ysgrifenedig arall fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith ar gyfer monitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Sylwadau eraill gan NICE

Nododd NICE i'r dechnoleg a ddefnyddiwyd gael ei haddasu yn ystod yr unig astudiaeth oedd ar gael. Mae gwelliannau pellach yn debygol o ddigwydd wrth i'r dechnoleg a ddefnyddir yn y driniaeth hon wella.

Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer baeddu. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Trin anymataliaeth ysgarthion â sffincter artiffisial a osodir drwy doriad yn yr abdomen

Yr enw meddygol ar gyfer y driniaeth hon yw 'mewnblannu sffincter coluddyn artiffisial trawsabdomenol ar gyfer anymataliaeth ysgarthion'. Ystyr y gair 'trawsabdomenol' yw bod y mewnbllaniad wedi'i osod drwy doriad yn abdomen y claf, yn hytrach na thrwy'r rhefr (pen ôl).

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Mae anymataliaeth ysgarthion yn digwydd pan fydd unigolyn yn colli'r gallu i reoli symudiadau'r coluddyn, gan arwain at ollwng ysgarthion yn anfwriadol. Gall fod nifer o resymau gwahanol dros faeddu. Gall achosi gofid a chael effaith ddifrifol ar fywyd bob dydd.

Fel arfer mae'r driniaeth gychwynnol ar gyfer anymataliaeth ysgarthion yn cynnwys meddyginiaeth gwrth-ddiarëig a rheoli'r deiet. Gellir eu dilyn gan hyfforddiant cyhyr gwaelod y pelfis neu therapi bioadborth, a roddir gan ffisiotherapydd neu nyrs arbenigol fel arfer. Os bydd y triniaethau hyn yn methu neu os nad ydynt yn addas, gellir argymhell llawdriniaeth i drwsio'r sffincter rhefrol. Ymhlith yr opsiynau eraill a allai fod yn addas i rai pobl mae symbylu'r nerf sacrol, graciloplasti (llunio sffincter newydd i'r anws o gyhyrau addas eraill), colostomi, neu fewnblannu sffincter rhefrol artiffisial (wedi'i fewnblannu drwy'r anws neu'r abdomen).

Nod y driniaeth hon yw trin anymataliaeth ysgarthion â sffincter artiffisial a osodir drwy doriad yn yr abdomen. Caiff y llawdriniaeth ei chynnal fel arfer gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol. Mae'r llawfeddyg yn gwneud toriad yn yr abdomen y claf ac yn gosod rhwymyn o amgylch y coluddyn. Llenwir y rhwymyn â hylif ac mae'n gorwedd yn dynn o amgylch y coluddyn gan ei gadw ar gau. Mae pibell yn rhedeg o'r rhwymyn i bwmp rheoli a fewnblannir o dan y croen.

Pan fydd y rhwymyn yn llawn, mae pwysedd yn cadw'r coluddyn ar gau. Pan fydd y claf am wagio'i goluddyn, bydd yn gwasgu botwm y pwmp rheoli o dan ei groen. Mae hyn yn gwagio'r rhwymyn fel gall y coluddyn wagio. Ar ôl hynny, mae'r claf yn gwasgu botwm y pwmp rheoli eto i ehangu'r rhwymyn a chau'r coluddyn.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig y driniaeth hon i chi ar gyfer anymataliaeth ysgarthion, dylai ddweud wrthych fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau'n ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cyflawni'r driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar un astudiaeth ar y driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 12 o gleifion, roedd y mewnbliad yn gweithio'n llwyddiannus mewn 9 claf pan gawsant eu hadolygu bron 5 mlynedd ar ôl y driniaeth. Roedd angen llawdriniaeth bellach ar bump o'r 9 claf i drwsio problemau gyda'r mewnbliad sffincter artiffisial. Yn yr astudiaeth, defnyddiwyd sgôr anymataliaeth ysgarthion mewn 10 claf. Rhoddwyd sgôr allan o 20 i anymataliaeth ysgarthion (yr anymataliaeth waethaf posibl). Cyn y driniaeth y sgôr cyfartalog oedd 16, ond ar ôl y driniaeth roedd y sgôr cyfartalog wedi gwella i 3. Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai nodau'r driniaeth oedd adfer ymataliaeth ysgarthion, atal mwcws rhag gollwng a gwella ansawdd bywyd.

Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth o 12 o gleifion, roedd yn rhaid tynnu'r mewnbliad oherwydd cymhlethdodau a effeithiodd ar dri chlaf: datblygodd 2 glaf heintiau a datblygodd un claf lid o'r coluddyn.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd cynghorwyr mai ymhlith y problemau posibl roedd haint, y mewnbliad yn dod yn rhydd, problemau yn y cyflenwad gwaed i'r coluddyn ac anafiadau i'r rhefr a achosir gan y mewnbliad. Dywedodd un cynghorwr y gallai llawfeddygaeth bellach i gywiro problemau fod yn fwy anodd ar ôl y

Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 177

driniaeth hon o gymharu â'r driniaeth lle y gosodir y mewnbliad drwy'r anws.

Rhagor o wybodaeth am faeddu

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn PALS fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'Mewnblaniad sffincter coluddyn artiffisial trawsabdomenol ar gyfer anymataliaeth ysgarthion'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/HTG177

Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon o gyhoeddiadau NICE (ffoniwch 0845 003 7783 neu anfonwch neges e-bost i publications@nice.org.uk a dyfynnwch y cyfeirnod N1730).

Rydym yn annog sefydliadau'r sector gwirfoddol a sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7856-4

N1747 1P Tachwedd 08

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2008. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.